

Sut gall polisi gynyddu mynediad at gymorth gofal plant y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd lleiafrifoedd ethnig?

Crynodeb o Bolisiau, gan IPPO
Hydref 2024

Cynnwys

Allbynnau'r prosiect.....	1
Cyflwyniad.....	2
Cefndir y Prosiect.....	2
Y cyd-destun polisi.....	3
Canfyddiadau cyffredinol.....	4
Heriau'r DU.....	4
Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion.....	5
Argymhellion a chanfyddiadau.....	7
Atodiad A: Ynglŷn â'r adolygiad tystiolaeth hwn.....	15

Allbynnau'r prosiect

Mae'r crynodeb polisi hwn yn crynhoi tystiolaeth ac argymhellion o becyn o allbynnau cysylltiedig: https://wcpp.org.uk/cy/?post_type=publication&p=8493&preview=true

- **Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth**
- **Sgan Polisi Rhyngwladol**
- **Map Systemau**
- **Map Synthesis Tystiolaeth**
- **Canfyddiadau Gweithdy Damcaniaeth Newid**

Nod yr Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth a'r Sgan Polisi Rhyngwladol oedd darparu tystiolaeth, mewnwelediad a gwybodaeth annibynnol am ddulliau posibl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau eu hystyried.

Er mwyn cael mewnwelediad o'r cyd-destun lleol a chryfhau ein hargymhellion, bu'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO) yn ymgysylltu ag ystod o swyddogion polisi, swyddogion ymchwil a swyddogion sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb Llywodraeth Cymru; mentoriaid cymunedol (pobl â phrofiad byw a phrofiad proffesiynol); a chyrrff sy'n cynrychioli'r sector drwy weithdai mapio systemau a gweithdy damcaniaeth newid terfynol.

Cyflwyniad

Mae cynyddu mynediad at addysg a gofal plentyndod cynnar (AGPC) yn flaenoriaeth fyd-eang. Mae AGPC yn cael ei ystyried yn allweddol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau addysgol a chymdeithasol. Mae arbenigwyr a [llunwyr polisi](#) yn [cytuno](#) bod buddsoddi mewn gwasanaethau AGPC o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn gynhwysol ac yn fforddiadwy, yn cryfhau cyrhaeddiad addysgol yn y dyfodol, yn atal bylchau sgiliau cynnar ac yn gostwng cyfraddau gadael yr ysgol yn gynnar, yn lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol hirdymor, ac yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol. Mae statws AGPC fel blaenoriaeth yn cael ei gadarnhau drwy fentrau rhyngwladol fel [Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig](#) ar 'addysg o ansawdd' a [Menter G20 ar gyfer Datblygiad Plentynod Cynnar](#). Mae nodau polisi tebyg sy'n gysylltiedig ag AGPC ar draws y DU.

Mae'r galw am addysg a gofal plentyndod cynnar [yn aml yn fwy na'r cyflenwad](#) mewn gwledydd incwm uchel, gyda llawer o deuluoedd yn methu dod o hyd i neu fforddio'r cymorth gofal plant sydd fwyaf addas i'w hanghenion. **Gall ymgysylltu ag AGPC hefyd amrywio'n sylweddol ar draws grwpiau demograffig.** Mae nodi rhwystrau a galluogwyr sy'n dylanwadu ar fynediad anghyfartal at AGPC yn arbennig o bwysig o ystyried gwaith ymchwil sy'n dangos mai'r plant mwyaf difreintiedig yw'r [rhai mwyaf tebygol o elwa](#) o ofal cynnar, gydag AGPC yn [helpu i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol](#). Gall deall penderfynyddion ehangach ymgysylltu ag AGPC [chwarae rhan bwysig](#) wrth gefnogi mentrau polisi cenedlaethol sydd â'r nod o sicrhau darpariaeth deg, lleihau gwahaniaethau datblygiadol ymysg plant, a hyrwyddo canlyniadau bywyd cadarnhaol fel cyflawniad academaidd, cyfleoedd cyflogaeth, a sgiliau cymdeithasol.

Cefndir y Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn deillio o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am ei nodau polisi sy'n ymwneud â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar (dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag AGPC) ac fel rhan o'u hymrwymiad i wneud Cymru yn wrth-hiliol. Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei [Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (ArWAP) sy'n seiliedig ar [adolygiadau tystiolaeth](#), ymgysylltu â rhanddeiliaid, arbenigedd profiad bywyd, ac ymgynghoriad ehangach ar sut i wella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Mae'r ArWAP yn tynnu sylw at Ofal Plant a Chwarae fel maes polisi allweddol oherwydd ei bwysigrwydd ar gyfer datblygiad plant, dysgu gydol oes, ac integreiddio cymdeithasol. Arweiniodd hyn at ymrwymiad i ddatblygu dull gwrth-hiliol yn y sector gofal plant a chwarae sy'n cynnwys: gwella profiad yn y gweithle; cynnig darpariaeth sy'n fwy priodol yn ddiwylliannol; a gwella profiad plant.

Bydd nodi rhwystrau a hwyluswyr posibl yn well yn llywio'r gwaith parhaus o ehangu'r Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn raddol yng [Nghymru](#) a [Lloegr](#) ac yn cefnogi darpariaeth yr ArWAP, yn enwedig o ran [gofal plant a chwarae](#). Nododd tystiolaeth ragarweiniol yng Nghymru fod y [cyfraddau defnydd isel](#) o ofal plant y blynyddoedd cynnar ymysg plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn destun pryder. Er bod angen cwmpasu dulliau posibl o ymyrryd, mae'r diffyg o ran data cyson y gellir ei gymharu ar y raddfa bresennol hefyd yr her.

Datblygwyd y cwestiynau ymchwil a'r dull gweithredu ar gyfer y prosiect hwn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, ond fe'u cynlluniwyd i fod yn berthnasol ledled y DU ac yn fyd-eang. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi yn Atodiad A. Er mwyn cyfrannu at drafodaethau polisi ehangach ar y blynyddoedd cynnar, fe wnaethom archwilio'r canlynol:

- **Pa dystiolaeth sy'n bodoli** am natur a graddfa'r her o ran cyfranogiad mewn AGPC ymhlith plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- **Beth yw'r rhwystrau a'r galluogwyr** o ran cymryd rhan mewn AGPC ymhlith plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- **Pa ymyriadau** sydd wedi cael eu rhoi ar waith i annog plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gymryd rhan mewn addysg a gofal blynyddoedd cynnar? I ba raddau mae'r ymyriadau hyn yn effeithiol?
- **Sut mae gwledydd eraill wedi mynd ati i sicrhau cyfranogiad cyfartal** mewn gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal â grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig eraill?

Nodiadau ar derminoleg: Mae'r prosiect hwn yn defnyddio 'addysg a gofal plentyndod cynnar' (AGPC) oherwydd ei arwyddocâd byd-eang. Er ein bod yn cydnabod nad oes term sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol i ddisgrifio'r amrywiaeth o grwpiau a all brofi hiliaeth mewn cymdeithas, rydym yn dilyn [ArWAP](#) wrth ddefnyddio'r term Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn ogystal ag 'ethnig leiafrifol' fel disgrifiad cryno. Rydym hefyd yn cyfeirio at 'deuluoedd sy'n profi anfantais' neu 'gymunedau difreintiedig'. Er nad yw'r grwpiau hyn yn gyfnewidiadwy, gwnaethom ehangu'r chwiliadau i ganfod ystod ehangach o dystiolaeth a allai fod yn drosglwyddadwy.

Y cyd-destun polisi

Yng Nghymru a'r DU yn fwy cyffredinol, cynyddu nifer yr oriau gofal plant a ariennir gan y llywodraeth sydd ar gael i rieni plant ifanc fu'r prif ymyriad polisi ar gyfer cynyddu mynediad at AGPC. Mae cymhwysedd yn amrywio ar draws y pedair gwlad ond, yn gyffredinol, cynigir rhwng 12 a 30 awr o ofal plant yr wythnos yn ystod y tymor i rieni plant rhwng 2 a 4 oed sy'n gweithio, gyda hawliau ychwanegol i deuluoedd difreintiedig. Mae tonnau olynol o ehangu cyllid a chynyddu argaeledd oriau gofal plant ledled y DU yn bennaf gysylltiedig â chefnogi rhieni sy'n gweithio i gynnal cyflogaeth neu ddod yn economaidd weithgar, er nad yw'r amcan hwn gan y llywodraeth bob amser yn cyd-fynd ag amcanion sy'n ymwneud â datblygiad a dysgu plant.

Yn ogystal â chynyddu mynediad cyffredinol at AGPC ar gyfer plant ifanc, mae llunwyr polisi ac ymarferwyr hefyd yn ymwneud â sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaethau hyn ar draws grwpiau demograffig fel bod AGPC yn helpu i leihau, nid ehangu, anghydraddoldebau addysg yn ehangach ar draws cwrs bywyd. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gyfranogiad isel a phrofiadau gwaeth mewn AGPC ymysg plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae hyn yn cynnwys [astudiaeth](#) o 2022 gan y *Centre for Evidence and Implementation*, [adolygiad tystiolaeth](#) o 2018 ar gyfer Adran Addysg (DfE) Lloegr, a [thystiolaeth ansoddol](#) a rannwyd â Senedd Cymru. Fodd bynnag, nid yw data ar raddfa fawr ar gyfraddau cyfranogiad mewn AGPC ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael ei gasglu fel mater o drefn ar draws gwasanaethau. Mae un [astudiaeth ryngwladol](#) hefyd yn awgrymu bod lefelau incwm ac addysg is yn gysylltiedig â llai o ddefnydd o AGPC, er bod y bwlch yn y defnydd wedi lleihau lle darparwyd cymorthdaliadau cyffredinol gan y Wladwriaeth.

Cyd-destun Polisi Cymru

Mae Cymru yn mynd ati'n weithredol i ddatblygu dull newydd o ymdrin ag AGPC drwy ehangu cymorth blynyddoedd cynnar yn raddol drwy Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC). Mae'r dull Cymreig o ymdrin ag AGPC yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo datblygiad plant, cyfleoedd cymdeithasol, lles, cydraddoldeb, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan integreiddio cymorth blynyddoedd cynnar â strategaethau ehangach fel [Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg](#). Yng Nghymru, mae gan bob plentyn 3-4 oed hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg feithrin drwy eu hawdurdod lleol. Cymorth allweddol arall yng Nghymru yw'r [Cynnig Gofal Plant](#) sy'n rhoi 20 awr ychwanegol o ofal plant a ariennir bob wythnos i rieni plant 3-4 oed cymwys am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, a [Dechrau'n Deg](#), y rhaglen blynyddoedd cynnar flaenllaw ar gyfer plant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sy'n cael ei hehangu ar hyn o bryd drwy ddull gweithredu fesul cam i ddarparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am 39 wythnos y flwyddyn i bob plentyn 2 oed yng Nghymru.

Er mwyn creu cenedl decach i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn mynd i'r afael â'r ffyrdd y mae hiliaeth yn rhan o bolisiau a ffyrdd o weithio yn dilyn lansio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP). Drwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned, nododd ArWAP fod gofal plant a chwarae yn faes polisi allweddol i'w weithredu. Mae'n cydnabod yr effaith gymdeithasol ehangach y gall darpariaeth gofal plant ei chael ar allu rhieni a gofalwyr i weithio a chael mynediad at y farchnad lafur. Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn ArWAP yn canolbwyntio'n gryf ar fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn y gweithlu, ond hefyd yn ymrwymo i weithio gyda'r sector, grwpiau cymunedol a rhieni i nodi a mynd i'r afael â materion. Gan weithredu ar yr ymrwymiad hwn, yn ddiweddar [croesawodd](#) Llywodraeth Cymru ganllawiau gwrth-hiliol newydd ar gyfer lleoliadau gofal plant a ddatblygwyd gan y sefydliad

[Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol](#) (DARPL), mewn partneriaeth â [Cwlwm](#) (consortium o ddarparwyr blynyddoedd cynnar).

Canfyddiadau cyffredinol

Datgelodd y sylfaen dystiolaeth fyd-eang doreth o bolisiau a mentrau, ond prin oedd y gwerthusiadau cadarn o effeithiolrwydd ac effaith tymor hwy. Gweithredodd llawer o wledydd ddulliau cydweithredol a phwrpasol o ddatblygu polisiau i fynd i'r afael â heriau sy'n unigryw i'w cyd-destun. Mae themâu allweddol o'r dystiolaeth yn awgrymu:

- **Gall rhaglenni a hawliau a ariennir gan y llywodraeth gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar AGPC ond mae angen eu teilwra i dargedu anghenion y boblogaeth.** Gall dulliau gweithredu cyffredinol anwybyddu'r heriau penodol sy'n wynebu cymunedau a lleoedd penodol o ran cyfranogi.
- **Dim ond rhan o'r datrysiad yw cael gwared ar rwystrau ariannol, ac mae angen mynd i'r afael â rwystrau diwylliannol hefyd.** Mae pryderon ynghylch ansawdd, sensitifrwydd diwylliannol a'r gallu i addasu i wahanol anghenion plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig hefyd yn chwarae rolau pwysig.
- **Gall diffyg cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn y sector AGPC effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.** Nododd ein gwaith ymchwil, profiadau staff a theuluoedd, a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, faterion yn ymwneud â chynrychiolaeth mewn dau faes allweddol:
 - **Amrywiaeth staff AGPC:** recriwtio a chadw pobl ar draws y sector blynyddoedd cynnar o gefndiroedd ethnig amrywiol sydd â sgiliau iaith amrywiol.
 - **Ymarfer AGPC cynhwysol ac amrywiol:** bod yn gynhwysol o ran cyfyngiadau dietegol, arferion crefyddol, a thrwy gynrychioli arferion diwylliannol mewn llyfrau, gweithgareddau a dathliadau.
- **Mae perthnasoedd cymunedol sefydledig yn hanfodol i gefnogi teuluoedd o leiafrifoedd ethnig i gael mynediad at AGPC.** Gall cymunedau fod yn alluogwyr allweddol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o AGPC a gwreiddio gwasanaethau ar gyfer lleoliadau allgymorth a / neu leoliadau hygyrch, sy'n cefnogi teuluoedd i gofrestru, cynnal presenoldeb, a gwella ymarfer AGPC.
- **Mae ansawdd y gweithlu, morâl a chyfraddau cadw staff yn effeithio ar argaeledd AGPC a chanfyddiadau o briodoldeb.** Mae cyflogau isel a diffyg cyfleoedd hyfforddi a datblygu proffesiynol a ariennir yn cyfrannu at drosiant staff uchel, oriau darparu cyfyngedig, a chapasiti isel i ddarparu cymorth ychwanegol (e.e. iaith). Mae'r heriau hyn yn effeithio ar barodrwydd a gallu teuluoedd i gymryd rhan mewn AGPC.

Heriau'r DU

Wrth ganolbwyntio ar y DU yn benodol, roedd ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn tynnu sylw at ddwy thema gyffredinol allweddol:

- **Bylchau hygyrchedd:** Yn y DU, mae bylchau mewn ymwybyddiaeth, cyrhaeddiad a chyfranogiad yn bodoli ar gyfer plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig - mae argaeledd a hygyrchedd gofal plant yn parhau i fod yn heriau sylweddol i lawer. Mae'r annhegwch hwn yn parhau er gwaethaf tystiolaeth sy'n cadarnhau bod buddsoddiad y llywodraeth mewn AGPC yn fwy cyffredinol wedi cynyddu mynediad at AGPC ac wedi cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau yn ogystal â manteision AGPC.
- **Data annigonol:** Er mwyn llywio camau gweithredu cadarn ym maes polisi AGPC a monitro effeithiolrwydd ymyriadau, mae'r dystiolaeth a'r data presennol ar ddefnydd, safbwyntiau a phrofiadau teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn y DU yn annigonol. Yn y sector

AGPC, mae diffyg data sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd a data sy'n cael ei ddadgyfuno er mwyn meincnodi defnydd a chyfranogiad teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn well. Yn ogystal, mae diffyg gwerthuso rheolaidd i lywio gwelliannau yn y sector AGPC yn seiliedig ar staff o leiafrifoedd ethnig, plant, a phrofiad a dealltwriaeth teuluoedd o ddiffyg cyfranogiad.

Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion

Mae argymhellion yr IPPO wedi'u hanelu at lywodraethau cenedlaethol a lleol sy'n dymuno cael gwared ar rwystrau a chynyddu mynediad lleiafrifoedd ethnig at ofal plant. Daw'r canfyddiadau a'r argymhellion o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid lleol yng Nghymru, adolygiad cyflym o dystiolaeth, a sgan polisi rhyngwladol. Daeth tair thema gyffredinol i'r amlwg o'r sylfaen dystiolaeth sy'n helpu i grwpio ein hargymhellion:

- 1. Yr angen am strategaeth bwrpasol ac integredig** i fynd i'r afael yn ddigonol â'r ffactorau lluosog, rhyngberthynol sy'n effeithio ar fynediad lleiafrifoedd ethnig. Dro ar ôl tro, amlygodd ein hadolygiad o'r dystiolaeth fod lleihau costau yn angenrheidiol, ond nid yn ddigonol, i gynnal mwy o bresenoldeb mewn AGPC. Nododd ein sgan polisi wledydd amrywiol sy'n gwneud buddsoddiadau strategol, tymor hwy mewn AGPC. Mae'r dulliau hyn yn mynd y tu hwnt i fynd i'r afael â fforddiadwyedd, a chawsant eu datblygu drwy brofion gweithredol, dysgu a chydweithio. Gall integreiddio cymorth blynyddoedd cynnar â gwasanaethau eraill ei wneud yn fwy hygyrch, gwella allgymorth, a darparu cymorth mwy cynhwysfawr i deuluoedd.
- 2. Mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol.** Mae angen deall ac ymateb yn well i anghenion cymunedau penodol a datblygu arferion sy'n fwy sensitif yn ddiwylliannol, yn enwedig drwy gynnwys lleisiau lleiafrifoedd ethnig yn y gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth. Mae cynyddu amrywiaeth y sector AGPC yn cael ei ystyried yn gam allweddol. Dylid cymryd camau pellach i fynd i'r afael â rhwystrau megis symleiddio prosesau cymhwyso ac ymgeisio a all fel arall rwystro teuluoedd. Mae angen hyfforddiant a chefnogaeth ar draws y sector i wella ymarfer a pholisi.
- 3. Mae allgymorth ac ymgysylltu cymunedol yn allweddol i gynyddu cyfranogiad mewn AGPC.** Mae allgymorth wedi'i dargedu yn strategaeth effeithiol ar gyfer cynyddu cyfranogiad ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig penodol. Mae strategaethau addawol yn cynnwys darparu adnoddau i froceriaid cymunedol a diwylliannol (e.e. gweithwyr deuddiwylliannol, gweithwyr cymorth, cysylltiadau cymunedol); ymweliadau cartref i annog ymgysylltu ag AGPC; a darpariaeth AGPC yn y cartref neu yn y gymuned.

I ddysgu mwy am sut rydym yn trosi'r canfyddiadau a'r argymhellion byd-eang hyn i Gymru, darllenwch ein [Nodyn Gwybodaeth am y Gweithdy](#).

Canfyddiad	Argymhelliad
Thema 1: Datblygu strategaeth integredig	
Mae lleihau costau yn angenrheidiol ond nid yw'n ddigonol.	Datblygu dull cynhwysfawr, hirdymor o gau'r bwlch mynediad i AGPC yng Nghymru.
Rhaid integreiddio polisiau AGPC â pholisiau, gwasanaethau a sectorau eraill.	Mabwysiadu dull integredig sy'n cynnwys cysylltu â chyflogwyr, sefydliadau cymunedol, a gwasanaethau eraill y llywodraeth er mwyn cyrraedd a chefnogi teuluoedd yn well.

Gallai ymyriadau gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar AGPC i ddechrau, ond methu â chynnal cyfranogiad neu wella canlyniadau datblygiadol.	Dyrannu adnoddau ar gyfer gwerthuso ymyriadau sy'n gysylltiedig ag AGPC yn y tymor hir fel rhan o ddylunio polisi ac arbofi (datblygu polisi ac ymarfer drwy geisio, profi a dysgu).
Mae diffyg data a gwerthuso mentrau yn llesteirio gweithredu polisi effeithiol i wella mynediad at AGPC.	Ymgorffori gwerthusiad tymor hir a chasglu data ethnigrwydd fel mater o drefn sy'n ddibynadwy ac ar gael. Cymryd agwedd gyfannol tuag at dystiolaeth ar rwystrau a phrofiadau er mwyn datblygu a gwella polisi ac ymarfer yn effeithiol.
Thema 2: Mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol	
Mae polisiau cynhwysol sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol yn allweddol i ddatblygu darpariaeth croesawgar a derbynol ar gyfer plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig.	Datblygu rhaglen sensitif a chynhwysol o ran diwylliant ar gyfer lleoliadau AGPC.
Mae gweithlu AGPC yn allweddol i ehangu mynediad at ofal plant.	Datblygu strategaeth gweithlu i gynyddu amrywiaeth staff AGPC a gwella cyfraddau cadw, ansawdd a phroffesiynoldeb y sector.
Gall teuluoedd ddatgysylltu oherwydd prosesau ymgeisio sy'n gofyn am ddogfennau a gallant dybio sgiliau, dyfeisiau a llythrennedd digidol.	Sicrhau cyn lleied o faich prawf â phosibl ar gyfer gwasanaethau AGPC am ddim neu â chymhorthdal.
Thema 3: Allgymorth cymunedol, ymgysylltu a gweithredu	
Mae perthnasoedd dibynadwy a chefnogol yn paratoi'r ffordd i rieni a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig ymgysylltu â gwasanaethau AGPC.	Mabwysiadu dull perthynol o ran gwaith allgymorth a chyflawni AGPC drwy ymweliadau cartref, ymgysylltu yn y gymuned, a chymorth yn y cartref (lle bo hynny'n briodol i grwpiau penodol).
Gall allgymorth wedi'i dargedu gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar AGPC.	Datblygu strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned i ganoli partneriaethau cymunedol, ymgysylltu, a llais yn natblygiad a gweithrediad parhaus polisiau a darpariaeth AGPC. Dylai hyn archwilio defnyddio arweinwyr cymunedol, mentoriaid, seilwaith a grwpiau cynghori.
Mae cysylltiadau cymunedol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hwyluso, cefnogi a gwella mynediad at AGPC ar gyfer plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig.	
Gall ymarferwyr AGPC sy'n gweithredu fel broceriaid diwylliannol gefnogi mynediad ac ymgysylltiad lleiafrifoedd ethnig; mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gall broceriaid gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant.	Dylai llywodraethau cenedlaethol a lleol weithio gyda darparwyr i fynd ati i gydnabod, darparu adnoddau a chefnogi broceriaid diwylliannol ar draws y sector AGPC.

Argymhellion a chanfyddiadau

Thema 1: Datblygu strategaeth integredig

Argymhelliad 1: Datblygu dull cynhwysfawr, hirdymor o gau'r bwllch mynediad i AGPC yng Nghymru.

Canfyddiad allweddol: Mae lleihau costau yn angenrheidiol ond nid yw'n ddigonol.

- **Mae cost yn rhwystr sylweddol o ran mynediad at ofal plant.** Yn gyffredinol, mae dileu ffioedd yn cynyddu'r niferoedd sy'n cael mynediad at ofal plant yn y tymor byr.
- Fodd bynnag, **nid yw lleihau cost yn unig yn cynnal mwy o bresenoldeb** mewn AGPC ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau eraill sydd dan anfantais strwythurol.
- Mae **agosatrydd a derbynoldeb gofal plant** yn effeithio'n sylweddol ar ymgysylltiad parhaus, gan awgrymu bod mynd i'r afael ag agweddau teuluoedd a chymunedau tuag at gael mynediad at wasanaethau AGPC yn hanfodol.

Canfu ein sgan polisi enghreifftiau o wledydd eraill yn gwneud buddsoddiadau strategol, tymor hwy mewn AGPC sy'n mynd i'r afael â mwy na fforddiadwyedd yn unig. Dylai datblygu dull cynhwysfawr o ymdrin ag AGPC gynnwys profi dulliau o wneud y canlynol:

- ehangu oriau gofal plant a ariennir.
- sicrhau arferion a pholisïau sy'n ddiwylliannol sensitif.
- arloesi a gwerthuso dulliau allgymorth cymunedol.
- mynd i'r afael â phryderon am y gweithlu gofal plant ac ansawdd.
- integreiddio â pholisïau addysg a gweithlu ehangach.

Argymhelliad 2: Mabwysiadu dull integredig sy'n cynnwys cysylltu â chyflogwyr, sefydliadau cymunedol, a gwasanaethau eraill y llywodraeth er mwyn cyrraedd a chefnogi teuluoedd yn well.

Canfyddiad allweddol: Rhaid integreiddio polisïau AGPC â pholisïau, gwasanaethau a sectorau eraill.

- Mae **allgymorth yn y gymuned yn hanfodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth** a dealltwriaeth o hawliau AGPC presennol a manteision AGPC ffurfiol.
- Mae'n bwysig **cysylltu AGPC â gwasanaethau cymorth eraill** ar gyfer grwpiau difreintiedig, yn enwedig yn achos ffoaduriaid. Mae cysylltiadau cyfatebol rhwng darparwyr AGPC ac iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar AGPC ac yn chefnogi canlyniadau cymdeithasol ehangach.
- **Mae darparu cymorth personol, wyneb yn wyneb, i ddeall a gwneud cais am AGPC wedi'i ariannu yn gwneud gwahaniaeth mawr.** Gall gweithwyr allgymorth AGPC helpu teuluoedd gyda'r broses ymgeisio a chwalu camsyniadau mewn cymunedau. Yn ogystal, gall arweinwyr cymunedol hyfforddedig, darparwyr gofal iechyd a gweithwyr cymdeithasol chwarae'r rôl hon.

Gall integreiddio'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir i gyrraedd teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn well gynnwys:

- **Mentrau codi ymwybyddiaeth wedi'u targedu yn y gymuned** drwy bartneriaethau â mudiadau cymunedol lleol, sefydliadau crefyddol a grwpiau diwylliannol; gallant gynnal sesiynau gwybodaeth neu grwpiau cymorth i gyrraedd rhieni'n well a allai, fel arall, oedi cyn ymgysylltu â gwasanaethau ffurfiol.

- **Cyfeirio at hawliau gofal plant drwy wasanaethau a ddefnyddir yn lleol**, er enghraifft drwy ddefnyddio ysgolion, cyflogwyr, gwasanaethau iechyd a cymdeithasol i ledaenu gwybodaeth.

Cynnig cefnogaeth ehangach i rieni, yn ogystal ag AGPC, megis:

- **Integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth o fewn neu ger canolfannau AGPC** i helpu rhieni i ddod o hyd i gyflogaeth sefydlog (gan gynyddu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal plant am ddim).
- **Dosbarthiadau iaith** i gefnogi cydlyniant cymunedol.

Argymhelliad 3: Dyrannu adnoddau ar gyfer gwerthuso ymyriadau sy'n gysylltiedig ag AGPC fel rhan o'r gwaith o ddylunio polisi ac arbrofi.

Canfyddiad allweddol: Gallai ymyriadau gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar AGPC i ddechrau, ond ni fyddant yn cynnal cyfranogiad neu'n gwella canlyniadau datblygiadol.

- Canfu ein gwaith ymchwil **ganlyniadau cadarnhaol o ddulliau beiddgar ac arbrofol** o ddatblygu polisi – fel treialu gwahanol fathau o allgymorth cymunedol a chymorth un-i-un. Drwy 'arbrofi', rydym yn cyfeirio at ddatblygu polisi ac ymarfer drwy dreialu, profi a dysgu.
- Argymhellir dulliau gweithredu wedi'u teilwra o'r fath gan fod tystiolaeth yn dangos bod lleihau costau yn aml yn annigonol i gau bylchau mynediad ar gyfer rhai cymunedau.
- Fodd bynnag, **mae ymyriadau arbrofol yn gofyn am werthuso cadarn** i feithrin hyder mewn buddsoddi cyhoeddus a sicrhau polisi ymatebol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae penderfynu pa ganlyniadau i'w holrhain ac am ba hyd yn allweddol i werthuso effeithiolrwydd.
- **Gall effeithiau cadarnhaol o ymyriadau gymryd amser i ddod i'r amlwg**, felly mae'n bwysig **gwerthuso ymyriadau dros amser** er mwyn cael darlun cywir o effeithiolrwydd. Er enghraifft, gall canlyniadau datblygiadol i blant gymryd blynyddoedd i'w gwireddu.


Argymhelliad 4: Ymgorffori gwerthuso hirdymor a chasglu data ethnigrwydd fel mater o drefn sy'n ddibynadwy ac ar gael. Cymryd agwedd gyfannol at dystiolaeth ar rwystrau a phrofiadau er mwyn datblygu a gwella polisi ac ymarfer yn effeithiol.

Canfyddiad allweddol: Mae diffyg data a gwerthuso mentrau yn llesteirio gweithredu polisi effeithiol i wella mynediad at AGPC.

- Yn fyd-eang, mae diffyg monitro data rheolaidd sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a mynediad a chanlyniadau AGPC, sy'n ei gwneud yn anodd gwerthuso'r bwlch ethnigrwydd o ran y nifer sy'n manteisio ar AGPC.
- **Mae casglu data ethnigrwydd cywir a chymaradwy ar lefel awdurdod lleol a darparwr AGPC** yn hanfodol i fonitro effeithiolrwydd ymyriadau sy'n gysylltiedig ag AGPC ac ymyriadau ehangach.
- **Dylai casglu data cenedlaethol a lleol ddadgyfuno data ethnigrwydd er mwyn tystiolaethu, monitro a mynd i'r afael â bylchau a heriau o ran mynediad at wasanaethau, gan gynnwys AGPC.**
- Gall rwystrau at gyfranogiad mewn AGPC ar gyfer teuluoedd ethnig lleiafrifol fod yn ddeinamig ac yn strwythurol, yn ogystal â chymdeithasol a diwylliannol. Dylai casglu a gwerthuso data fabwysiadu dull gyfannol o gael mynediad, a chynnwys tystiolaeth i sicrhau bod AGPC yn ddiwylliannol sensitif, ac yn gallu addasu i anghenion cymunedau amrywiol.
- Gellir **gwrthbwysio effeithiau cadarnhaol ar ddefnydd** gan heriau mewn rhannau eraill o'r system, fel diffyg lleoedd neu ddiffygion yn y gweithlu. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i **asesu profiadau teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn barhaus** er mwyn deall lle gallai heriau newydd ddod i'r amlwg. Dylai data ansoddol gael ei ategu gan gasglu data meintiol dibynadwy a rheolaidd ar draws y sector AGPC sy'n monitro mynediad cyfartal.

Engbreiffiau o ymarfer byd-eang: Datblygu strategaeth integredig

Argymhelliaid	Tystiolaeth
Datblygu dull gweithredu cynhwysfawr	<p>Er mwyn galluogi datrysiadau wedi'u teilwra ac o'r gwaelod i fyny i ddod i'r amlwg, un o elfennau allweddol Strategaeth Blynyddoedd Cynnar newydd Awstralia yw Cronfa Datblygu Cynhwysiant ar gyfer Cymorth Datrysiadau Arloesol i helpu gwasanaethau AGPC i ddod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â rhwystrau cynhwysiant. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ariannu mentoriaid cymunedol brodorol a gweithwyr cymorth deuddiwyllynnol.</p> <p>Mae Talaith Victoria yn Awstralia wedi datblygu cyfres o fentrau a chymorth wedi'u teilwra i anghenion mynediad diwylliannol ac ieithyddol amrywiol (CALD), gan gynnwys pecyn cymorth Digwyddiadau Cymunedol, menter allgymorth CALD gyda gweithwyr allgymorth CALD, a gwasanaethau ac adnoddau mwy uniongyrchol ar gyfer teuluoedd CALD, fel cyfieithu am ddim.</p> <p>Buddsoddodd Llywodraeth Canada dros \$27 biliwn yn 2021 i wella AGPC ym mhob talaith, gyda manylion buddsoddi gwahanol ar gyfer pob talaith er mwyn ymateb i anghenion lleol. Mae Deddf Dysgu Cynnar a Gofal Plant 2024 (sydd yn dal i fod yn Fil ar hyn o bryd) hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o bolisïau i gefnogi mudwyr diweddar, grwpiau ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol, a chymunedau'r Gwledydd Cyntaf yng Nghanada.</p>
Dyrannu adnoddau at ddiben gwerthuso	<p>Cyn cyflwyno polisi o ddileu ffioedd yn gyffredinol yn 2020, cynhaliodd Bwlgaria hap-dreial rheoli cenedlaethol o sawl ymyriad i ddeall beth oedd fwyaf effeithiol.</p> <p>Cafodd rhaglen Cymorth Cynhwysiant Awstralia - sydd â'r nod o hyrwyddo cyfranogiad mewn AGPC ymysg plant ag anghenion ychwanegol - ei gwerthuso am y tro cyntaf yn 2021, ac yna cynhaliwyd adolygiad annibynnol llawn yn 2023, a adroddodd am ganlyniadau a oedd wedi datblygu'n sylweddol.</p> <p>Arweiniodd gwerthusiad parhaus o'r Prosiect Hyrwyddo Cyfranogiad APC yn Seland Newydd at y prosiect yn esblygu ar sail ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer cynyddu cyfranogiad. Arweiniodd y broses hon at gyfuno'r ffocws ar dri chynllun penodol: Ymgysylltu â Theuluoedd â Blaenoriaeth, Cylchoedd Chwarae â Chymorth, a Chymorth wedi'i Dargedu ar gyfer Cyfranogiad.</p>
Gwreiddio gwerthuso tymor hir a mabwysiadu dull cyfannol	<p>Flwyddyn ar ôl dileu ffioedd ym Mwlgaria, roedd cofrestriadau a phresenoldeb ymysg plant Roma wedi cynyddu, ond nid oedd canlyniadau datblygiadol wedi gwella. Fodd bynnag, roedd gwerthusiad dilynol ddwy flynedd yn ddiweddarach yn dangos tystiolaeth o lythrennedd a rhifedd uwch, gan ddangos pwysigrwydd gwerthuso canlyniadau yn y tymor hwy.</p> <p>Dangosodd gwerthusiad ansoddol o raglen "Gofal Plant \$10-y-dydd" Canada fwy o ddefnydd ac effeithiau cadarnhaol ar gyfer y teuluoedd hynny a allai gael mynediad ato, ond nododd fod ei effaith gadarnhaol yn cael ei beryglu gan faterion fel rhestrau aros hir ac ansawdd y gweithlu.</p>



Canfu'r gwerthusiad parhaus fod Pecyn Gofal Plant Llywodraeth Awstralia wedi gwella fforddiadwyedd gofal plant ar gyfer teuluoedd incwm isel a chanolig, ond pan gafodd ei ddadgyfuno, nid oedd cynnydd amlwg ymysg plant brodorol, plant ynysoedd Culfor Torres a rhai plant diwylliannol ac ieithyddol amrywiol, sy'n awgrymu eu bod yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran mynediad.

Thema 2: Mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol

Argymhelliad 5: Datblygu rhaglen sensitifrwydd a chynwysoldeb diwylliannol ar gyfer lleoliadau AGPC.

Canfyddiad allweddol: Mae polisïau cynhwysol sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol yn allweddol i ddatblygu darpariaeth croesawgar a derbyniol ar gyfer plant a theuluoedd lleiafrifoedd ethnig.

- Gall **canllawiau a fframweithiau cenedlaethol** helpu i safoni a blaenoriaethu ymarfer sy'n ddiwylliannol sensitif ar draws y sector AGPC.
- Gall cyflwyno **asesiadau o anghenion diwylliannol sensitif** alluogi gwell ymateb i anghenion plant a theuluoedd.
- Dylai datblygiadau polisi i wneud AGPC yn fwy diwylliannol sensitif a chynhwysol **gynnwys arbenigedd profiad bywyd** teulu a staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Gall sefydlu **byrddau cynghori cymunedol** sy'n cynnwys rhieni, staff AGPC, ac arweinwyr cymunedol, helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n ddiwylliannol sensitif.

Dyma rai ffactorau i'w hystyried:

- os yw'r oriau agor yn eithrio rhieni sy'n gweithio ar batrymau shift gwahanol
- agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a hygyrchedd yr opsiynau hynny
- prosesau ymgeisio, gan gynnwys prawf cymhwysedd
- sut mae lleoedd yn cael eu dyrannu a sut mae rhestrau aros yn cael eu trin (e.e. y cyntaf i'r felin o'i gymharu â blaenoriaethu'r rheini sydd â mwy o angen)
- pa mor ystyriol yw gwasanaethau AGPC i gyfyngiadau dietegol ac arferion crefyddol er mwyn hwyluso cynwysoldeb a mynegiant diwylliannol yn llawn

Argymhelliad 6: Datblygu strategaeth gweithlu i gynyddu amrywiaeth staff AGPC a gwella cyfraddau cadw, ansawdd a phroffesiynoldeb y sector.

Canfyddiad allweddol: Mae'r gweithlu AGPC yn allweddol i ehangu mynediad at ofal plant.

- Roedd ein hadolygiad o'r dystiolaeth, ac ymgysylltu â mentoriaid cymunedol Llywodraeth Cymru (pobl sydd â phrofiad byw a phrofiad proffesiynol), yn tynnu sylw at y ffaith bod teuluoedd yn ymwybodol o, ac yn poeni am ansawdd a throsiant y gweithlu.
- Mae astudiaethau wedi dangos bod trosiant staff uchel yn gallu peryglu effeithiau cadarnhaol mwy o ddefnydd o AGPC ymysg lleiafrifoedd ethnig a grwpiau difreintiedig.
- Mae astudiaethau wedi dangos bod gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n cael ei dalu'n dda ac sydd â rhagolygon da o ran datblygu gyrfa, yn hanfodol i lwyddiant rhaglenni AGPC newydd. Yng Nghanada, mae cyflogau isel a statws isel staff AGPC o grwpiau lleiafrifol wedi bod yn rhwystrau allweddol i ehangu mynediad.
- Mae addasrwydd gwasanaethau AGPC yn ffactor allweddol o ran eu defnydd ac, yn ogystal ag ansawdd, gall amrywiaeth staff ac arweinwyr AGPC effeithio ar ymgysylltiad rhieni.
- Mae angen mesurau i **recriwtio a chadw gweithlu AGPC amrywiol** sy'n adlewyrchu demograffeg y gymuned mewn lleoliadau darparwyr AGPC a rhaglenni allgymorth.
- Dylai **cynllun gweithlu** anelu at gynyddu amrywiaeth y sector AGPC, uwchsgilio staff, gwerthuso llwybrau dilyniant ar gyfer cadw ac amrywiaethu arweinyddiaeth y sector, a lleihau trosiant drwy wella cyflogau a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff.
- Mae angen **hyfforddiant a darpariaeth arbenigol ar gyfer staff ar draws y sector AGPC** er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol, a dylid eu cysylltu â **datblygiad proffesiynol achrededig**. Roedd yr hyfforddiant a amlygwyd yn cynnwys hyfforddiant rhagfarn ddwywysol, gwrth-hiliaeth, a chymhwysedd diwylliannol.

Argymhelliad 7: Sicrhau cyn lleied o faich prawf â phosibl ar gyfer gwasanaethau AGPC am ddim neu â chymhorthdal.

Canfyddiad allweddol: Gall teuluoedd ddatgysylltu oherwydd prosesau ymgeisio sy'n gofyn am ddogfennau a gallant dybio sgiliau, dyfeisiau a llythrennedd digidol.

- Mae'r meini prawf cymhwysedd a'r angen am brawf o gymhwysedd wedi'i ddogfennu yn rhwystrau allweddol rhag cyrchu gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud ag incwm teulu, oed plant, dinasyddiaeth neu statws fisa, a'r angen am fathau penodol o ddogfennau.
- Gall cyflogaeth fel maen prawf ar gyfer cyrchu gofal plant am ddim hefyd fod yn rhwystr anfwriadol rhag chwilio am waith.
Gellid cyflwyno prosesau cymhwysedd symlach ar gyfer grwpiau penodol, lle mae llywodraethau wedi nodi bod angen ehangu mynediad.
- Gall symleiddio prosesau ymgeisio a chynnig cefnogaeth i deuluoedd wrth wneud cais fynd i'r afael â heriau mynediad yn uniongyrchol, megis ansicrwydd rhieni mewn perthynas ag iaith, llythrennedd, neu am wasanaethau AGPC.
- Gall defnyddio cymhorthion gweledol, ffeithluniau a fideos i esbonio gwybodaeth gymhleth fod yn arbennig o effeithiol wrth oresgyn rhwystrau iaith a gwella dealltwriaeth.

Enghreifftiau o ymarfer byd-eang: Mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol

Argymhelliad	Tystiolaeth
Sensitifrwydd diwylliannol a chynhwysiant	<p>Mae Llywodraeth Ffederal Canada wedi cyd-ddatblygu Fframwaith Dysgu Cynnar a Gofal Plant Brodorol gyda phartneriaid brodorol sy'n pwysleisio pwysigrwydd hunaniaeth ddiwylliannol plentyn a'i ymdeimlad o werth.</p> <p>Yn 2023, fe wnaeth Brasil greu ffrwd waith benodol yn ei rhaglen Bolsa Família genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion diwylliannol pobl brodorol a phobl Quilombola, fel cynnal iaith a chysylltiadau ysbrydol.</p>
Lleihau'r baich profi	<p>Mae cymhorthdal gofal plant Llywodraeth Awstralia wedi'i rannu'n haenau yn ôl pa mor ymroddedig yw rhieni mewn amrywiaeth o weithgareddau fel gwaith, hyfforddiant neu astudio gyda thâl neu'n ddi-dâl, ond mae eithriadau ar gael, gan gynnwys ar gyfer rhieni plant brodorol a phlant ynysoedd Culfor Torres.</p> <p>Mae gwladwriaeth Victoria yn Awstralia yn derbyn datganiadau llafar gan rieni neu atgyfeiriad gan weithwyr proffesiynol lleol fel prawf digonol ar gyfer lleoedd gofal plant â chymhorthdal i blant o gefndiroedd ffoaduriaid neu geiswyr lloches, plant brodorol a phlant ynysoedd Culfor Torres, neu'r rhai sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Amddiffyn Plant.</p>

Thema 3: Allgymorth cymunedol, ymgysylltu a gweithredu

Argymhelliad 8: Mabwysiadu dull perthynol o ran gwaith allgymorth a chyflawni AGPC drwy ymweliadau cartref, ymgysylltu yn y gymuned, a chymorth yn y cartref (lle bo hynny'n briodol i grwpiau penodol).

Canfyddiad allweddol: Mae perthnasoedd dibynadwy a chefnogol yn paratoi'r ffordd i rieni a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig ymgysylltu â gwasanaethau AGPC.

- Mae **allgymorth wedi'i dargedu** – e.e. gweithwyr cymorth sy'n ymweld â theuluoedd nad ydynt yn cymryd rhan – wedi bod yn effeithiol o ran cynyddu'r defnydd mewn gwledydd eraill.
- Mae rhaglenni sy'n cynnwys **ymweliadau cartref rheolaidd ac sy'n cynnwys teuluoedd mewn cymorth addysgol a datblygiadol yn eu cartrefi** wedi gwella canlyniadau datblygiadol plant ac wedi cefnogi lefelau uwch o gyfranogiad mewn lleoliadau AGPC ffurfiol.
- Er eu bod yn defnyddio llawer o adnoddau, mae rhaglenni allgymorth neu gymorth sydd wedi'u targedu yn gysylltiedig â manteision tymor hwy drwy feithrin ymddiriedaeth sy'n gallu arwain at: ymgysylltu parhaus, newid agweddau tuag at AGPC, a chreu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.

Argymhelliad 9: Datblygu strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn canoli partneriaethau cymunedol, ymgysylltu, a llais yn y gwaith datblygu a gweithredu parhaus o ran polisïau a darpariaeth AGPC.

Canfyddiadau allweddol: (1) Mae cysylltiadau cymunedol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hwyluso, cefnogi a gwella mynediad at AGPC ar gyfer plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig. (2) Gall allgymorth wedi'i dargedu gefnogi'r nifer sy'n manteisio ar AGPC.

- Mae **strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned**, sy'n ymgysylltu â theuluoedd ac arweinwyr cymunedol dibynadwy i godi ymwybyddiaeth a meithrin cysylltiadau rhwng darparwyr AGPC a theuluoedd, yn hanfodol.
- Gyda chymunedau penodol, gall **prosiectau ymchwil dan arweiniad y gymuned** helpu i wneud diagnosis a mynd i'r afael yn well â chyfranogiad isel neu ddiffyg cyfranogiad mewn AGPC.
- Dylai awdurdodau lleol **wreiddio cynlluniau codi ymwybyddiaeth yn y gymuned**, gan gynnwys gweithio gyda chyflogwyr, ysgolion, sefydliadau crefyddol a grwpiau diwylliannol i ledaenu gwybodaeth yn well.
- Gall gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol i gysylltu, brocera a chyfeirio fod yn arf pwerus: Gall cynnal digwyddiadau ar y cyd, sesiynau gwybodaeth, gweithdai a grwpiau cefnogi gyrraedd a chefnogi rhieni yn well, a fyddai fel arall yn oedi cyn ymgysylltu â gwasanaethau ffurfiol.

Argymhelliad 10: Dylai llywodraethau cenedlaethol a lleol weithio gyda darparwyr i fynd ati i gydnabod, darparu adnoddau a chefnogi broceriaid diwylliannol ar draws y sector AGPC.

Canfyddiadau allweddol: Gall ymarferwyr AGPC sy'n gweithredu fel broceriaid diwylliannol gefnogi mynediad ac ymgysylltiad lleiafrifoedd ethnig; mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gall broceriaid gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad plant.

- Mae tystiolaeth fyd-eang yn dangos bod gweithwyr cymorth gyda rhwydweithiau cymunedol cryf a sefydledig yn fwy llwyddiannus o ran ymgysylltu â theuluoedd nad ydynt yn cymryd rhan.

- Mae angen **broceriaid cymunedol a rolau cyswllt cymunedol** i feithrin perthnasoedd dibynadwy a chefnogol gyda theuluoedd.
- Gall y rhain fod yn rolau pwrpasol neu'n staff AGPC presennol sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol i ddarparu cefnogaeth unigol wedi'i theilwra ar gyfer teuluoedd lleiafrifoedd ethnig a meithrin perthnasoedd rhwng AGPC a sefydliadau cymunedol eraill.
- Dylai rolau o'r fath gael eu **hadnoddu'n briodol** a darparu cyfleoedd ar gyfer **datblygiad proffesiynol**.

Engbreiffiau o ymarfer byd-eang: Allgymorth cymunedol, ymgysylltu a gweithredu	
Argymhelliad	Tystiolaeth
Mabwysiadu dull perthynol	<p>Yn Seland Newydd, mae gweithwyr cymorth yn gwneud gwaith allgymorth wedi'i dargedu gyda theuluoedd nad ydynt yn cymryd rhan, er mwyn cefnogi cofrestriadau AGPC. Er enghraifft, mae'r Prosiect Hyrwyddo Cyfranogiad APC yn defnyddio gweithwyr maes i ymweld â chartrefi.</p> <p>Mae'r rhaglen cymorth darllen "Eich Stori Chi" ar gyfer teuluoedd Roma wedi cael ei rhoi ar waith mewn ardaloedd ledled Hwngari, Gogledd Macedonia, Romania a Slofacia.</p> <p>Roedd rhaglen <i>Slovakia Omama</i> yn cynnwys ymwelwyr cartref—sy'n fenywod Roma hyfforddedig (<i>Omamas</i>)—yn cefnogi mamau Roma i ddysgu ac ysgogi eu plant mewn ffordd strwythuredig.</p> <p>Datblygodd Talaith Victoria yn Awstralia fenter Allgymorth CALD, sy'n cynnwys defnyddio gweithwyr allgymorth CALD a gyflogir gan y cyngor lleol a gweithwyr deuddiwyllyannol sy'n gwneud gwaith allgymorth i deuluoedd CALD sy'n byw mewn tai cyhoeddus.</p>
Datblygu strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned	<p>Datblygodd Seland Newydd nifer o strategaethau fel Gwasanaethau Hyblyg ac Ymatebol yn y Cartref a Chylchoedd Chwarae â Chymorth mewn cymunedau lleol er mwyn cyrraedd grwpiau cyfranogiad is yn well, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u hynysu'n wledig.</p> <p>Mae Kōhanga reo yn Seland Newydd yn wasanaeth AGPC trochi Māori ar gyfer plant, rhwng genedigaeth a chwe blwydd oed, sy'n cynnwys teuluoedd yn weithredol fel gwirfoddolwyr.</p>

Atodiad A: Ynglŷn â'r adolygiad tystiolaeth hwn

Mae'r [Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol](#) (IPPO) yn bodoli i roi'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen ar lunwyr polisiâu i fynd i'r afael â heriau strategol, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Cyflwynwyd y prosiect hwn ar y cyd gan [Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#) (WCPP) sy'n cynnwys comisiynau allweddol gan yr [International Network for Government Science Evidence](#) (INGSA) a'r [Evidence for Policy and Practice Information Centre](#) (EPPI).

Gofynnwyd i'r IPPO adolygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol a llunio argymhellion y gellir gweithredu arnynt. Roedd diffyg data clir a diweddar ar fylchau o ran mynediad at AGPC yn golygu bod angen archwilio'r dystiolaeth fyd-eang bresennol i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r heriau cyfranogiad y mae plant a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu hwynebu. Gwnaethom ddatblygu dull gweithredu pedair rhan i ateb ein cwestiynau ymchwil yn drylwyr.

Cafodd y ffordd y gwnaethom ddelio â'r sylfaen dystiolaeth ei llywio gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wrth-hiliaeth a gweithio gyda chymunedau. Gwnaethom ategu adolygiadau annibynnol o'r dystiolaeth drwy ymgysylltu'n ddyfnach â rhanddeiliaid i ddod â safbwyntiau byd-eang a lleol at ei gilydd. Roedd ein dull yn cynnwys:

1. **Mapio systemau:** Gweithdai i ymgysylltu â llunwyr polisi a mentoriaid cymunedol sydd â phrofiad proffesiynol a phrofiad byw yng Nghymru er mwyn cael mewnwelediad o'r cyd-destun lleol. Roedd y gweithdai yn ymdrin â chanlyniadau allweddol, rhwystrau, galluogwyr a gweithredwyr. Yn gyffredinol, roedd yr arbenigedd hwn, sy'n seiliedig ar ymarfer a phrofiad byw, yn defnyddio dull [SEPPA](#) i [gynhyrchu map systemau](#).
2. **Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth:** fe wnaethom gomisiynu'r Evidence for Policy and Practice Information Centre ([EPPI](#)) yn UCL i ddarparu Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth (RER) annibynnol a thryloyw i fynd i'r afael â'r bwch tystiolaeth ar lefel adolygiad, a hefyd i ddarparu tystiolaeth ar ymyriadau effeithiol ar gyfer cynyddu mynediad.
3. **Sgan Polisi Rhyngwladol:** fe wnaethom ofyn i'r International Network for Government Science Evidence ([INGSA](#)) ddarparu cyfres o opsiynau polisi a datrysiadau posibl a ddefnyddir gan wledydd eraill i ddarparu ysbrydoliaeth ac arweiniad i lywodraethau ledled y DU.
4. **Gweithdy Damcaniaeth Newid:** i drafod canfyddiadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid lleol er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau lleol yn well ac yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth fyd-eang. Mae canfyddiadau'r gweithdy hwn a'r argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gael yn ein [Nodyn Gwybodaeth am y Gweithdy](#).

Oherwydd cyflwr y sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â phrofiadau a chyfranogiad pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o AGPC, ehangodd ein hadolygiadau i gynnwys tystiolaeth ar 'deuluoedd sy'n profi anfantais' neu 'gymunedau difreintiedig'. Yn gyffredinol, fe wnaethom ddiffinio grwpiau difreintiedig fel poblogaethau neu gymunedau sy'n profi gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd neu iechyd o'u cymharu â'r boblogaeth ehangach.

Fframwaith sylfaenol

Nododd ymarfer cwmpasu rhagarweiniol Canolfan EPPI fframwaith cysyniadol [Archambault et al.](#) ar fynediad at AGPC o ansawdd uchel ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig fel ffordd o fapio a dadansoddi'r llenyddiaeth a adolygwyd yn y RER. Fe wnaeth nodau'r fframwaith alinio â nodau ein prosiect. Mae'r fframwaith cysyniadol yn gweithredu fel offeryn i grwpio'r ystod o faterion a allai ddylanwadu ar fynediad at AGPC er mwyn cydlynu camau gweithredu tuag at gynyddu tegwch mynediad.

Addasodd IPPO y fframwaith hwn ymhellach i ddod â'r canfyddiadau ar draws allbynnau at ei gilydd. Roedd fersiynau wedi'u haddasu o'r fframwaith hwn yn sail i'r RER, yn sail i'r map synthesis tystiolaeth, ac yn helpu i drefnu canfyddiadau'r ymarfer mapio systemau. Mae'r fframwaith yn delweddu mynediad at AGPC yn fwy cynhwysfawr fel proses, o ganfyddiad

cychwynnol yr holl ffordd drwodd i ganlyniadau parhaus a rhwystrau a hwyluswyr posibl ar hyd y daith honno. Mae hyn yn galluogi barn fwy cynnil ar y dystiolaeth ac yn annog gweithredu integredig i newid canlyniadau.

Cysylltu â ni

Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol

www.theippo.co.uk

@ippouk

ippo@ucl.ac.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

<https://www.wcpp.org.uk/>

@WCfPP

info@wcpp.org.uk